Adroddiad Dilysu Tân

Gorffennaf 2004

# Awdurdod Tân Gogledd Cymru

## Cytundeb Cyflog ac Amodau'r Gwasanaeth Tân: Adroddiad Dilysu Lleol Cam 2

646A2004

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Nodau ac amcanion Cam 2 yr astudiaeth 3

Fformat yr asesiad 4

Crynodeb rheoli 5

Asesiad cyffredinol ar gyfer Awdurdod Tân Gogledd Cymru 5

Negeseuon allweddol cyffredinol 5

Crynodeb diagnostig 6

Negeseuon allweddol y diagnostig 6

Atodiad 1 – Canfyddiadau'r Diagnostig IRMP 8

Atodiad 2 – Canfyddiadau'r Diagnostig Rheng i Rôl 13

Atodiad 3 – Canfyddiadau'r Diagnostig IPDS 15

Atodiad 4 – Canfyddiadau'r Diagnostig Goramser 21

Atodiad 5 – Canfyddiadau'r Diagnostig Systemau Dyletswydd 22

Atodiad 6 – Canfyddiadau'r Diagnostig Gweithio Rhan Amser 23

Atodiad 7 – Canfyddiadau ar y Diagnostig Ariannol 25

Atodiad 8 – Canfyddiadau ar Ddiagnostig yr Agenda Foderneiddio 26

Cynllun Gweithredu 29

# Cyflwyniad

1 Roedd y Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflog ac Amodau'r Gwasanaeth Tan y cafwyd fersiwn terfynol ohono ar 13 Mehefin 2003 yn cynnwys amod bod:

*"y dyfarniad cyflog ar gamau 2 a 3 yn amodol ar:...*

*b) ddilysu gan y Comisiwn Archwilio...bod y buddiannau a fwriedir (yn cynnwys arbedion) o'r newidiadau cenedlaethol amrywiol yn cael eu cyflawni'n lleol".*

2 Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol, cytunodd y Comisiwn Archwilio i gynnal astudiaeth o dan Adran 33 Deddf Comisiwn Archwilio 1998 er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed wrth roi'r broses o foderneiddio'r Gwasanaeth Tân ar waith yn unol â'r newidiadau a amlinellwyd yn y Cytundeb Cyflog Cenedlaethol a'r Papur Gwyn dilynol, 'Ein Gwasanaeth Tân ac Achub'. Cynhaliwyd yr astudiaeth mewn dau gam yn cyfateb â chamau 2 a 3 o'r dyfarniad cyflog. Cyflwynwyd adroddiadau ar ganlyniadau Cam 1 i'r Awdurdod ym mis Chwefror 2004. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau Cam 2 ein gwaith.

3 Ni fydd y Comisiwn yn gwneud argymhelliad o ran p'un a ddylid gwneud y dyfarniad cyflog cam 3. Mae hwn yn parhau'n fater i awdurdodau tân ei ystyried yn unigol a chyda'i gilydd. Fodd bynnag, bydd yr adroddiad cenedlaethol ar gael i gyflogwyr i'w cynorthwyo wrth gyrraedd eu penderfyniad.

# Nodau ac amcanion Cam 2 yr astudiaeth

4 Mae Cam 2 astudiaeth y Comisiwn wedi asesu'r cynnydd pellach a wnaed wrth roi'r newidiadau cenedlaethol a nodir yn y cytundeb cyflog a'r Papur Gwyn dilynol ar waith yn unol â'r arweiniad a'r amserlenni rhagnodedig, gan gynnal gwaith dilynol ar y materion allweddol a nodwyd yng Ngham 1 a chanolbwyntio ar y newidiadau sydd wedi digwydd ers mis Ionawr. Rydym wedi dilyn yr ymagwedd a fabwysiadwyd yng Ngham 1 er mwyn sicrhau cysondeb, gan ganolbwyntio ar y newidiadau hynny sydd wedi digwydd ers mis Ionawr 2004.

5 Roedd amcanion Cam 2 y gwaith maes lleol fel a ganlyn:

- asesu cydymffurfiaeth â'r arweiniad a'r amserlenni a ragnodwyd, yn arbennig mewn cysylltiad ag IRMP ac IPDS;
- asesu'r systemau a'r prosesau ar gyfer nodi, casglu ac adolygu tystiolaeth fel sail ar gyfer y broses o nodi risgiau a blaenoriaethau sydd wedi digwydd;
- asesu i ba raddau y gwnaed cynnydd ar gynlluniau gweithredu yn unol â nodau ac amcanion sefydliadol ac yn unol â'r IRMP a gyhoeddwyd;
- asesu'r cynnydd wrth gyflwyno IPDS a chwblhau'r newid o reng i rôl;
- asesu effaith y newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i'r newidiadau i systemau goramser a dyletswydd y cytunwyd arnynt fel rhan o'r cytundeb cyflog;
- asesu effaith ariannol y newidiadau a wnaed ac, yn arbennig, y graddau y mae arbedion effeithlonrwydd arfaethedig yn cael eu gwireddu, neu y maent yn debygol o gael eu gwireddu;
- cynorthwyo awdurdodau tân wrth wneud cynnydd ar yr agenda foderneiddio;
- galluogi'r Comisiwn i rybuddio'r ODPM am faterion y mae angen eglurhad pellach neu arweiniad newydd arnynt.

6 Mae'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru wedi cymryd nifer o elfennau sylweddol i ystyriaeth wrth fynd i'r afael â'r gwaith hwn yng Nghymru. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- ailstrwythuro sylweddol y Gwasanaeth Tân yng Nghymru o ganlyniad i uno'r Brigadau yn 1996;
- datganoli cyfrifoldeb yn y dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru o'r ODPM i Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- yr angen i gydnabod nad yw'r Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr yn gymwys i Gymru ac i roi ystyriaeth i'r Fframweithiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella sy'n cael eu datblygu.

7 Cynhyrchir papur briffio ar wahân a fydd yn rhoi crynodeb o faterion sy'n benodol i Gymru sy'n deillio o'r astudiaethau. Rhennir y papur hwn gydag awdurdodau tân, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

8 Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd cyffredinol a wnaed gan yr Awdurdod ac yn rhoi crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer y meysydd diagnostig unigol gan ddarparu manylion y negeseuon allweddol, unrhyw feysydd o arfer da a rhwystrau i gynnydd a nodwyd. Cynhwysir dadansoddiad manwl o'r diagnosteg unigol yn yr atodiadau.

## Fformat yr asesiad

9 Mae'r adolygiad wedi darparu asesiad sy'n canolbwyntio ar lefel y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod wrth roi'r newidiadau cenedlaethol ar waith a nodir yn y cytundeb cyflog a'r Papur Gwyn dilynol yn unol ag arweiniad ac amserlenni a ragnodir gan y Llywodraeth. Dilynwyd yr un ymagwedd a ddefnyddiwyd yng Ngham 1 ar gyfer pob un o'r materion allweddol a'r asesiadau diagnostig. Fodd bynnag, ar gyfer yr asesiad cyffredinol defnyddiwyd y raddfa ganlynol:

| **Mae buddiannau (ac arbedion) bwriadedig y newidiadau cenedlaethol amrywiol yn cael eu cyflawni'n lleol** | |
|---|---|
| **Ychydig bach o gynnydd neu ddim cynnydd o gwbl** | Arweiniad ac amserlenni rhagnodedig heb eu cyflawni. Dim cynlluniau ar waith.<br>Dim bwriad = dim tystiolaeth, naill ai'n ffurfiol neu a awgrymir, o gynlluniau a allai ddylanwadu ar arfer ar lawr gwlad. |
| **Rhywfaint o gynnydd** | Arweiniad ac amserlenni rhagnodedig wedi'u cyflawni. Y rhan fwyaf o'r cynlluniau ar waith a rhywfaint o gynnydd wrth eu cyflawni. Rhywfaint o dystiolaeth ar gael i ategu naill ai cydymffurfiaeth ag arweiniad neu gynnydd wrth gyflawni.<br>Rhywfaint o fwriad = tystiolaeth anffurfiol neu a awgrymir neu gynlluniau ar lefel uwch a allai ddylanwadu ar arfer ar lawr gwlad. |
| **Cynnydd gweddol** | Arweiniad ac amserlenni rhagnodedig wedi'u cyflawni. Yr holl gynlluniau ar waith a rhywfaint o gynnydd wrth eu cyflawni. Tystiolaeth gref ar gael i ategu naill ai cydymffurfiaeth ag arweiniad neu gynnydd wrth gyflawni.<br>Bwriad canolig = tystiolaeth ffurfiol neu a awgrymir neu gynlluniau ar lefel uwch a allai ddylanwadu ar arfer ar lawr gwlad ac sy'n dechrau cael ei rhoi ar waith. |

| | |
|---|---|
| **Cynnydd da** | Arweiniad ac amserlenni rhagnodedig wedi'u cyflawni. Cynlluniau ar waith ac yn cael eu cyflawni. Tystiolaeth ar gael i ategu cydymffurfiaeth ag arweiniad a chynnydd wrth gyflawni.<br>Bwriad clir = enghreifftiau cynhwysfawr, â thystiolaeth ffurfiol sydd wedi newid arferion gweithio/yr ymagwedd ar lawr gwlad. |

## Crynodeb rheoli

# Asesiad cyffredinol ar gyfer Awdurdod Tân Gogledd Cymru

10 Gan ddefnyddio canlyniadau pob un o elfennau ein hadolygiad sylfaenol, rydym wedi gwneud yr asesiad cyffredinol canlynol o gynnydd presennol yr Awdurdod ar y cam hwn o roi'r agenda foderneiddio ar waith:

Ffigwr 1 – Asesiad cyffredinol

| | | |
|---|---|---|
| **Asesiad Cyffredinol** | 2 | **ychwanegol** |
| | ↗ | |

| | | |
|---|---|---|
| **IRMP** | **3** | ↗ |
| **Rheng i Rol** | **3** | ↗ |
| **IPDS** | **3** | ↗ |
| **Goramser** | **2** | ↗ |
| **Systemau Dyletswydd** | **2** | → |
| **Gweithio rhan amser** | **2** | ↗ |
| **Agenda Foderneiddio** | **3** | ↗ |
| **Deiagnosteg Ariannol** | **2** | |

11 Ar sail canlyniadau gwaith maes yr astudiaeth ddilysu, gwnaed asesiad o **gynnydd rhesymol** ar gyfer Awdurdod Tan Gogledd Cymru a **bu** cynnydd ers mis Ionawr 2004. Ceir crynodeb o'r cynnydd hwn yn y siart uchod, sydd hefyd yn nodi'r asesiad o gynnydd yn erbyn pob un o'r meysydd diagnostig allweddol ynghyd â dangosydd cyfeiriad. Nodir crynodeb lefel uchel o'r prif negeseuon isod. Yna eir i'r afael â manylion pellach o ran diagnosteg unigol. Cynhwysir manylion llawn ein canfyddiadau o ran pob un o'r materion allweddol ar gyfer pob un o'r wyth diagnosteg yn yr atodiadau.

# Negeseuon allweddol cyffredinol


12 Gwnaed cynnydd da gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru wrth ddatblygu eu IRMP, Rheng i Rôl, IPDS a'r agenda foderneiddio gyffredinol. Sefydlodd drefniadau rheoli priodol i weithredu, monitro ac adolygu effeithiolrwydd y cynlluniau sydd ganddo ar waith.

13 Mae'r Awdurdod wedi ceisio rhoi newidiadau i'r system ddyletswydd bresennol â gweithwyr yn ystod y dydd ar waith ond ar hyn o bryd mae'n aros am ganlyniad arweiniad gan Banel Cyngor Technegol NJC mewn cysylltiad â materion a godwyd gan gynrychiolwyr y staff.

14 Gwnaed rhywfaint o gynnydd gan yr Awdurdod mewn cysylltiad â gweithio rhan amser ac ystyriodd gostau a buddiannau posibl gweithio goramser.

# Crynodeb diagnostig

Ffigwr 2 – Crynodeb Diagnostig




## Negeseuon allweddol y diagnostig

15 Mae crynodeb o’r casgliadau allweddol wedi’u cynnwys yn y Tabl isod, yn deillio o’r canfyddiadau manwl a gynhwysir o fewn yr atodiadau.

| Thema | Asesiad Cam 1 | Asesiad Cam 2 | Casgliadau allweddol |
|---|---|---|---|
| IRMP | Rhywfaint o gynnydd | Cynnydd da | Mae’r Awdurdod wedi dangos ei ymrwymiad parhaus i’r IRMP. Mae trefniadau rheoli priodol ar waith i nodi risgiau i’r gymuned y mae’n ei gwasanaethu a’r broses o roi’r IRMP ar waith. Mae’n parhau i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau atal, diogelu ac ymateb. |
| Rheng i Rôl | Rhywfaint o gynnydd | Cynnydd da | Mae’r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu ei strategaeth rheng i rôl yn unol ag arweiniad cenedlaethol. Yn dilyn cynrychioliadau, roedd yn ofynnol newid y cynigion gwreiddiol o ran y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu. |
| IPDS | Rhywfaint o gynnydd | Cynnydd da | Mae’r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu ei ymateb i’r IPDS ac mae mewn sefyllfa dda i roi asesiadau’r gweithle ar waith. Mae’r Awdurdod yn parhau i weithio’n dda gydag awdurdodau tân eraill a chadw cyflogeion yn gwbl ymwybodol o gynlluniau a phrosesau. |

| Thema | Asesiad Cam 1 | Asesiad Cam 2 | Casgliadau allweddol |
|---|---|---|---|
| Goramser | Prin iawn fu’r cynnydd | Rhywfaint o gynnydd | Ar hyn o bryd mae’r Awdurdod yn gwneud defnydd cyfyngedig o oramser. Ar ôl ystyried y mater, daeth i’r casgliad bod y costau yn fwy na’r buddiannau o ehangu’r defnydd o oramser o dan yr amgylchiadau presennol. |
| Systemau Dyletswydd | Rhywfaint o gynnydd | Rhywfaint o gynnydd | Nododd proses IRMP yr Awdurdod fuddiannau yn sgîl newid y system ddyletswydd gweithio yn ystod y dydd bresennol. Mae’r broses o roi’r newidiadau arfaethedig ar waith wedi’i hoedi oherwydd bod y corff cynrychioliadol wedi cyfeirio’r cynigion i’r Panel Technegol a Chynghori. |
| Gweithio rhan amser | Prin iawn fu’r cynnydd | Rhywfaint o gynnydd | Yn ddiweddar, rhoddodd yr Awdurdod bolisïau newydd a diwygiedig ar waith ar rannu swyddi, seibiant gyrfa, gweithio rhan amser, cymorth tadolaeth a chymorth i rieni. Fodd bynnag, ni chaiff amserlen yn adolygu’r amodau gwasanaeth ei rhoi ar waith hyd nes bod Llyfr Llwyd terfynol. |
| Yr Agenda Foderneiddio | Rhywfaint o gynnydd | Cynnydd Da | Mae’r Awdurdod yn darparu gweledigaeth glir a dangosadwy o’r hyn y mae’n ceisio ei gyflawni yn ei IRMP. Cymerwyd camau i gyflawni ar nifer o’i flaenoriaethau allweddol cynnar. Mae angen camau gweithredu pellach ar rai elfennau o’r cynlluniau. |
| Diagnostig Ariannol | Dim sylw | Rhywfaint o gynnydd | Mae’r Awdurdod wedi pennu costau elfennau allweddol ei IRMP. Mae rhai elfennau o ran costau heb eu nodi o hyd.<br>Nid yw’r Awdurdod wedi derbyn unrhyw ariannu trosiannol hyd yma, er ei fod yn rhagweld derbyn £382,000. Gwneir cynlluniau i ad-dalu’r arian cyn gynted ag y bydd y gofynion yn hysbys. |

16 Atodir cynllun gweithredu i’r adroddiad hwn sy’n nodi’r argymhellion a wnaed i gynorthwyo’r Awdurdod wrth wneud cynnydd pellach ar roi’r agenda foderneiddio ar waith.

# Atodiad 1 – Canfyddiadau'r Diagnostig IRMP

| Mater Allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| 1 Mae trefniadau rheoli ar gyfer proses integredig o gynllunio dull rheoli risgiau wedi'u hymgorffori o fewn yr Awdurdod Tân bellach. | Yn gyfan gwbl | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurod wedi sefydlu trefniadau rheoli priodol mewn cysylltiad â chynllunio dull rheoli risgiau integredig.<br>Mae grŵp swyddogion IRMP, a arweinir gan yr ACO (Cyflawni Gwasanaethau) yn gyfrifol am ddatblygu a monitro cynnydd.<br>Yn ogystal, mae panel gweithredol (aelodau) ar waith i dderbyn adroddiadau a darparu arweiniad fel y bo angen.<br>Cyflwynir adroddiadau ar gynnydd bob mater sy'n ymwneud â'r IRMP ym mhob Tîm Rheoli Brigâd a chant eu hanfon i weddill y Gwasanaeth drwy'r cofnodion a'r papurau sydd ar gael dros y fewnrwyd.<br>Caiff materion sy'n deillio o gynnydd eu hamserlennu ar gyfer cyflwyno adroddiadau arnynt drwy Weithgor y Panel Gweithredol. Yn ogystal, darperir yr adroddiadau hyn ar gyfer y Gweithgor Gwerth Gorau er mwyn sicrhau cysondeb ymateb.<br>Mae'r Awdurdod Tân llawn yn derbyn adroddiadau bob chwarter ar gynnydd wrth roi'r IRMP ar waith.<br>Mae effeithiau parhaus yr anghydfod cenedlaethol ar gyflog wedi golygu bod y gallu i roi rhai newidiadau ar waith wedi'i gyfyngu. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod o fis Chwefror i fis Mai mae'r aelodau wedi:<br>• mabwysiadu'r IRMP diwygiedig ar ôl dadl gadarn;<br>• mabwysiadu cyllideb 2004/2005 gyda darpariaeth ar gyfer costau ac arbedion wedi'i chynnwys yn yr IRMP;<br>• cynorthwyo newidiadau arfaethedig i'r systemau dyletswydd.<br>Mae Cadeirydd yr Awdurdod Tân yn parhau'n hyderus bod momentwm parhaus yn y broses foderneiddio. Mae cymorth hyfforddi pellach ar gyfer aelodau newydd ac aelodau presennol wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst 2004 i gynorthwyo'r gwaith ar yr IRMP nesaf. |

| Mater Allweddol | | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cam 1 | Cam 2 | |
| 2 | Mae'r Awdurdod Tân yn parhau i nodi ac adolygu risgiau presennol a risgiau posibl i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. | Yn rhannol | Yn rhannol | Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i nodi risgiau presennol a phosibl. Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd wrth gyflwyno meddalwedd FSEC.<br>Mae'r Awdurdod wedi ymestyn y defnydd o fapiau â phinnau ym mhob gorsaf. Mae'r Awdurdod wedi parhau i ymgorffori gwybodaeth leol am ffactorau risg posibl i gynlluniau cyffredinol. Yn arbennig, gwnaed asesiad o eiddo gwledig diamddiffyn a rhoddwyd blaenoriaeth i ymyriadau CFS ataliol.<br>Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith er mwyn rhannu data gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>Roedd ansawdd y data a gynhwyswyd yn y model FSEC pan gafodd ei dderbyn gan yr ODPM yn wael. Amcangyfrifir y bydd yn cymryd tua chwe mis i'r ddau aelod o staff sydd gan yr Awdurdod yn gweithio ar y prosiect hwn i lanhau a mewnbynnu data ar gyfer 1999-2002.<br>Ar hyn o bryd mae'n anodd bod yn sicr ynglŷn â graddau'r defnydd o'r model FSEC yn y byrdymor. Yn yr hirdymor mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i gyflawni'r fantais fwyaf bosibl o'r model FSEC ond nid ydynt hyd yma wedi pennu'r canlyniadau o ran adnoddau a'r canlyniadau ariannol. |
| 3 | Mae'r Awdurdod Tân yn awr yn ailasesu effeithiolrwydd ei drefniadau atal, diogelu ac ymateb presennol gyda budd y dadansoddiad risgiau y cyflwynwyd adroddiad arno yn yr IRMP a gyhoeddwyd. | Yn rhannol | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod yn parhau i asesu effeithiolrwydd ei drefniadau atal, diogelu ac ymateb.<br>Mae'r Awdurdod wedi gweld dirywiad cyffredinol yn nifer yr anafiadau a thanau damweiniol mewn anheddau dros y flwyddyn ddiwethaf.<br>Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r broses dadansoddi risgiau leol i helpu i ailasesu'r dull o leoli ei adnoddau ac mae wedi diwygio ei ddull o ddyrannu adnoddau eisoes i ryw 30 o fathau o ddigwyddiadau craidd. Mae hyn yn cynnwys proses reoli newydd a nodwyd yn yr IRMP, a gyflwynwyd yn raddol ar 1 Ebrill a 1 Mai, i reoli galwadau a chynnal asesiad risgiau ohonynt cyn dyrannu adnoddau.<br>Mae newidiadau i waith ataliol yn cynnwys:<br>• nodi grwpiau sy'n wynebu risg a'r dull o goladu data;<br>• y defnydd o bersonél wrth gefn i gyflawni diogelwch tân cymunedol a nodi mwy o orsafoedd i ymestyn y broses o gyflawni'r gwasanaeth penodol hwn;<br>• cadarnhau swydd-ddisgrifiad a manyleb person derbyniol er mwyn i swydd-ddeiliaid anweithredol gynnal diogelwch tân cymunedol. |

| Mater allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| 4 Mae'r Awdurdod Tân wedi asesu a nodi'r cyfleoedd ar gyfer gwella a phennu polisïau a safonau lleol sy'n cael eu rhoi ar waith. | Yn rhannol | Yn rhannol | Mae'r Awdurdod wedi asesu a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella ac mae'n datblygu polisïau lleol mewn ymateb i'r cyfleoedd hynny a nodwyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn datblygu safonau a thargedau lleol a ddefnyddir i hybu gwelliant.<br>Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno polisi newydd ar ymdrin â chamrybuddion o systemau canfod awtomatig fel y nodwyd yn yr IRMP. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer symud adnoddau wedi'u diweddaru a'u diwygio yn unol â chynigion IRMP.<br>Mae effaith newid polisi yn cael ei hadolygu'n barhaus gan yr uwch swyddog ar gyfer y swyddogaeth arbennig sy'n ymwneud â'r newid.<br>Cyflwynir adroddiadau ar gynnydd ar yr holl faterion sy'n ymwneud â'r IRMP ym mhob BMT a chânt eu dosbarthu i weddill y Gwasanaeth drwy'r cofnodion a'r papurau y mae modd cael mynediad iddynt ar y fewnrwyd.<br>Mae'r materion sy'n deillio o gynnydd wedi'u hamserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiadau arnynt drwy'r Gweithgor Panel Gweithredol. Yn ogystal, darperir yr adroddiadau hyn ar gyfer y Gweithgor Gwerth Gorau er mwyn sicrhau cysondeb ymateb.<br>Mae'r Awdurdod Tân llawn yn derbyn adroddiadau bob chwarter ar gynnydd o ran rhoi'r IRMP ar waith.<br>Mae'r grŵp IRMP yn nodi cyfleoedd yn barhaus ar gyfer gwella'r gwasanaeth drwy'r broses o roi'r cynllun gweithredu presennol ar waith ac ailasesu ei effeithiolrwydd. Mae'r broses hon yn cynhyrchu meysydd atodol ar gyfer camau gweithredu sy'n ychwanegu gwerth pellach i'r IRMP.<br>Cyflwynir papur trafod ac adroddiad ar gynnydd o ran safonau a thargedau lleol i'r BMT ym mis Mehefin 2004. |

| Mater allweddol | | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cam 1 | Cam 2 | |
| 5 | Mae'r Awdurdod Tân wedi asesu ac ymdrin â'r gofynion adnoddau er mwyn rhoi'r argymhellion a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud ar waith. | Yn gyfan gwbl | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod wedi ystyried gofynion adnoddau'r IRMP drwy sicrhau bod cyllideb 2004/2005 yn cynnwys canlyniadau ariannol y prosiectau a argymhellwyd ar gyfer blwyddyn gyntaf yr IRMP.<br>Paratowyd cyllidebau dangosol ar gyfer 2005/2006 a 2006/2007 ac adolygir y rhain fel rhan o'r rownd gyllideb nesaf er mwyn adlewyrchu gofyniad yr IRMP nesaf hefyd.<br>Pennwyd costau'r cynlluniau gweithredu a nodwyd y deiliaid cyllideb. Wrth i gostau/arbedion ddod i'r amlwg cyflwynir adroddiadau ar y rhain drwy'r system cyflwyno adroddiadau gyllidebol a sefydlwyd.<br>Adlewyrchodd yr IRMP cychwynnol sefyllfa a oedd, yn gyffredinol, yn niwtral o ran costau.<br>Parheir i adolygu'r goblygiadau hirdymor o ran adnoddau a chânt eu hystyried wrth baratoi cyllidebau yn y dyfodol. |
| 6 | Mae'r Awdurdod Tân wedi dangos trefniadau effeithiol ar gyfer gweithredu, monitro, archwilio ac adolygu'r bwriadau a fynegwyd yn yr IRMP. | Yn gyfan gwbl | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod wedi datblygu trefniadau effeithiol ar gyfer monitro, archwilio ac adolygu'r bwriadau a fynegwyd yn yr IRMP.<br>Mae panel gweithredol i aelodau ar waith i dderbyn adroddiadau a darparu arweiniad fel y bo'n ofynnol.<br>Mae'r Awdurdod Tân yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn ei gyfarfodydd bob chwarter.<br>Cyflwynir adroddiadau ar gynnydd wrth roi'r Cynllun Gweithredu IRMP ar waith ym mhob BMT fel eitem safonol.<br>Caiff unrhyw wyriadau o amserlenni'r Cynllun Gweithredu eu trafod a'u hunioni neu eu newid gyda chytundeb y Panel Gweithredol a'r BMT fel y bo'n briodol.<br>Yn ogystal, darperir yr adroddiadau ar gyfer y Gweithgor Gwerth Gorau er mwyn sicrhau cysondeb ymateb.<br>Ar ôl Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod ym mis Gorffennaf, rhoddir sesiynau briffio ar IRMP ar waith a bydd Gweithgor y Panel Gweithredol yn ailymgynnull.<br>Bydd aelodau'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant i aelodau Cymru gyfan ar ddiwedd haf 2004. |

| Mater allweddol | | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cam 1 | Cam 2 | |
| 7 | Ymgynghorodd yr Awdurdod Tân gyda'i bartneriaid a'r gymuned ehangach ar ei gynigion IRMP, darparodd adborth a chyfathrebodd ei gynigion terfynol. | Yn gyfan gwbl | Yn rhannol | Ymgynghorodd yr Awdurdod yn eang â phob sector o'r gymuned a phob rhanddeilaid yn cynnwys rhoi copi unigol i bob cyflogai.<br>Cafwyd 278 o sylwadau yn sgîl y broses ymgynghori ar yr IRMP drafft. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i bob ymateb i'r ymgynghoriad.<br>Coladwyd canlyniad y broses ymgynghori a'i drafod yn helaeth yn un o gyfarfodydd Gweithgor y Panel Gweithredu ym mis Chwefror. Yn dilyn hynny paratowyd adroddiad llawn gydag argymhellion ar gyfer diwygiadau i'r IRMP drafft. Yna mabwysiadwyd yr IRMP (diwygiedig), yn dilyn trafodaeth gadarn, yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Mawrth.<br>Mae'r IRMP ar gael ar y wefan ac fel dogfen fewnol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae nifer yr ymwelwyr i'r wefan yn cael ei fonitro. Ar hyn o bryd argraffir nifer cyfyngedig o gopïau. |
| 8 | Mae'r Awdurdod Tân wedi cydymffurfio ag arweiniad ac amserlenni rhagnodedig neu arweiniad ac amserlenni sydd ar gael. | Yn gyfan gwbl | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio ag amserlenni a safonau cenedlaethol rhagnodedig yn ystod y broses o gynllunio'r IRMP a'i roi ar waith.<br>Dosberthir yr holl nodiadau arweiniol i'r staff perthnasol o fewn yr Awdurdod. Defnyddiwyd yr amserlen sy'n gysylltiedig â'r broses IRMP fel yr amserlen ddiffiniol ar gyfer y cynllun prosiect i gynhyrchu'r IRMP ac felly fe'i defnyddiwyd i bennu cyfarfodydd Gweithgor y Panel Gweithredol a'r IRMP.<br>Cyfeirir arweiniad penodol ar feysydd megis arolygiadau atal tân, cyfarwyddebau oriau gwaith ac ati, at sylw'r uwch swyddog mwyaf priodol sy'n ymdrin â'r pwnc penodol o fewn y broses IRMP.<br>Wrth i arweiniad gael ei dderbyn, caiff cynlluniau ar gyfer cynhyrchu'r IRMP eu diweddaru a'u diwygio fel y bo'n briodol.<br>Mae trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i gyflawni'r dyddiad ar gyfer paratoi'r IRMP nesaf, sef mis Medi 2004. |

| **Asesiad cyffredinol o'r cynnydd yn y maes pwnc hwn** |
|---|
| **Cynnydd Da** |

# Atodiad 2 – Canfyddiadau'r Diagnostig Rheng i Rôl

<table>
<tr><th rowspan="2" colspan="2">Mater Allweddol</th><th colspan="2">Asesiad</th><th rowspan="2">Canfyddiadau</th></tr>
<tr><th>Cam 1</th><th>Cam 2</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Mae'r Awdurdod Tân wedi gwneud cynnydd ar ei gynllun gweithredu i gyflawni'r broses o symud o Reng i Rôl.</td><td>Yn rhannol</td><td>Yn rhannol</td><td>Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd ar ei gynllun gweithredu i gyflawni'r broses o symud o Reng i Rôl.<br>Mae'r IRMP yn nodi ymrwymiad y Gwasanaeth i gyflwyno proses o ailstrwythuro'r rheolwyr. Bydd yr ailstrwythuro hwn yn symud y Gwasanaeth o'i system bresennol sy'n seiliedig ar reng i un lle mae cyflogeion unigol yn glir am eu rôl wrth gyflawni nodau ac amcanion y Gwasanaeth a'u cyfraniad at lwyddiant yr Awdurdod.<br>Mae'r Prif Swyddog Cynorthwyol Cyflawni Gwasanaethau yn cyflwyno adroddiadau i'r BMT ar y cynnydd a wneir wrth i'r Gwasanaeth symud o Reng i Rôl drwy gynllun gweithredu:<br>• cynhyrchwyd IRMP;<br>• cynlluniwyd y broses ailstrwythuro;<br>• cynhyrchwyd swydd-ddisgrifiadau/manylebau person;<br>• cyflwynwyd adroddiadau ar gynnydd i'r BMT;<br>• ymgynghoriadau â staff ar waith.<br>Nid yw swydd-ddisgrifiadau a ddatblygir ar gyfer rolau yn y strwythur newydd yn seiliedig ar reng bellach, er mwyn gallu derbyn ceisiadau yn seiliedig ar gymhwyster yr ymgeisydd ar gyfer y rôl yn hytrach nag ar eu rheng flaenorol neu eu rheng bresennol. Mae'r swydd-ddisgrifiadau hynny sydd wedi'u cwblhau eisoes yn cynnwys rolau Rheolwyr Brigadau, rolau Rheolwyr Ardal a rolau newydd eu cynllunio o fewn y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu.<br>Bu oedi wrth ddarparu arweiniad cenedlaethol mewn rhai meysydd sydd wedi golygu nad yw'r broses hon wedi'i chwblhau'n llawn.<br>Mae Canolfan IPDS Cymru gyfan yn cydgysylltu hyfforddiant ac arweiniad ychwanegol ar y newidiadau o Reng i Rôl a datblygu safonau ar gyfer Cymru gyfan.</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Mae'r Awdurdod Tân wedi asesu a darparu'n llawn ar gyfer goblygiadau adnoddau'r broses o symud o Reng i Rôl.</td><td>Yn rhannol</td><td>Yn gyfan gwbl</td><td>Mae'r Awdurdod wedi asesu a darparu yn llawn ar gyfer goblygiadau adnoddau'r broses o symud o Reng i Rôl.<br>Cymeradwywyd cyllideb 2004/2005 ac mae wedi ystyried cost y broses hon o symud o Reng i Rôl. Mae gostyngiadau mewn swyddi rheolwyr ac mae hyn wedi rhyddhau arian er mwyn sicrhau bod cynnydd cyllidebol o fewn llinellau targedau'r Llywodraeth.</td></tr>
</table>

| Mater allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| (Parhad) | | | Mae'r holl bersonél mewn lifrai wedi ymaddasu yn eu rolau newydd at ddibenion cyflog.<br>Mae ymagwedd Cymru gyfan tuag at steil lifrai newydd yn y broses o gael ei threialu, yn seiliedig ar benderfyniad i weld llai o bwyslais ar yr hen ffordd o bennu rheng. Yn ogystal, rhagwelir y bydd yr ymagwedd hon yn rhyddhau arbedion yn y blynyddoedd i ddod.<br>Mae'r Llythyr Annwyl Brif Swyddog diweddar 5/2004 wedi nodi newidiadau o ran dynodiadau ar gyfarpar diogelu personol yn ystod digwyddiadau gweithrediadol. Pennwyd mai costau rhoi'r argymhellion hyn ar waith fydd £8,000 ar gyfer y sefydliad. |
| 3 Mae cyflogeion a rhanddeiliaid allweddol eraill yn parhau i gael eu hysbysu'n llawn am y cynlluniau a'r prosesau dan sylw a'r rôl y mae'n rhaid iddynt ei chwarae. | Yn rhannol | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod wedi parhau i gadw cyflogeion a rhanddeiliaid eraill yn gwbl ymwybodol o'r cynlluniau a'r prosesau sy'n ymwneud â Rheng i Rôl. Gwrthodwyd y newidiadau arfaethedig cychwynnol i rolau yn y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu gan y Panel Gweithredol ond mae rheolwyr lleol wedi ceisio cynnal y cynnydd cyffredinol.<br>Mae Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddogion (COAT) yn cynnal rhaglen o ymweliadau â gorsafoedd, sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer rhoi'r newyddion diweddaraf am y newid o Reng i Rôl i'r personél.<br>Rhoddwyd copi personol o lawlyfr y Ganolfan IPDS ar IPDS, 'Mae'n ymwneud â chi', i bob aelod o staff, sy'n esbonio'r newidiadau a'u heffeithiau ar yr unigolyn. Cadarnhaodd ymweliadau â gorsafoedd fod gan staff ddealltwriaeth o Reng i Rôl a'r materion ehangach sy'n ymwneud ag IPDS.<br>Mae'r Prif Swyddog Cynorthwyol Cyflawni Gwasanaethau yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r BMT ar gynnydd yr IRMP, sef prif ysgogwr y broses o ailstrwythuro'r rheolwyr.<br>Mae ystod o uwch swyddi – yn cynnwys y Rheolwr Brigadau (Dirprwy Brif Swyddog) a'r Rheolwr Ardal (Uwch Swyddog Diogelwch Tân) – yn y broses o gael eu llenwi.<br>Wrth geisio rhoi newid ar waith, mae'r Awdurdod wedi cynnal trafodaeth reolaidd â'r cyrff cynrychioliadol. |

| **Asesiad cyffredinol o'r cynnydd yn y maes pwnc hwn** |
|---|
| **Cynnydd Da** |

# Atodiad 3 – Canfyddiadau'r Diagnostig IPDS

| Mater Allweddol | | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cam 1 | Cam 2 | |
| 1 | Mae gan yr Awdurdod Tân strwythurau rheoli sydd wedi'u hymgorffori ac yn gweithio'n llawn i ategu'r broses o roi IPDS ar waith. | Yn gyfan gwbl | Yn gyfan gwbl | Mae gan yr Awdurdod strwythurau rheoli sydd wedi'u hymgorffori ac yn gweithio'n llawn i ategu'r broses o roi IPDS ar waith.<br>Y Prif Swyddog Cynorthwyol Cymorth Gwasanaethau (ACO SS) yw noddwr prosiect IPDS ar gyfer rhanbarth Cymru. Mae'n cynhyrchu papurau gwybodaeth ac yn gwneud argymhellion i'r tri Phennaeth yng Nghymru. Mae'n eistedd ar y Grŵp Datblygu Personol a Sefydliadol Cenedlaethol ar gyfer CFOA ac yn bwydo safbwyntiau a materion sy'n ymwneud â Chymru i'r fforwm hwn.<br>Mae'r ACO SS yn cyflwyno papurau CFA ar IPDS ac yn sicrhau bod y grŵp hwn yn gwbl ymwybodol o faterion sy'n ymwneud ag IPDS.<br>Mae'r Awdurdod yn parhau i gynorthwyo'r broses o ariannu cydlynydd prosiect IPDS yng Nghymru. Yn sgîl y trefniant hwn, cafwyd cytundeb Cymru gyfan ar ddatblygu Diffoddwyr Tân Cam 1, datblygu Gweithredydd Rheoli Cam 1, Datblygiad Cam 2 ar gyfer yr holl staff ar hyd y trywydd NVQ, cyflwyno a threialu Cofnodion Datblygu Personol (PDR) a chyflwyno'r broses o Adolygu Datblygiad Personol.<br>Mae dogfen 'Denu' ddrafft i Gymru gyfan wedi'i hysgrifennu ac yn cael ei hystyried gan bob un o dri Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru. Ar ôl cytuno arni, bydd y ddogfen hon yn herio ac yn ategu prosesau IPDS Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru.<br>Er gwaethaf gwrthod y cynigion rheoli cychwynnol, mae'r Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu yn cael ei datblygu yn unol â chynllun gweithredu IPDS.<br>Ar gyfer sefydliad megis Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'r newidiadau hyn o bwys sylweddol ac mae aelodau'r Awdurdod Tân a'r BMT o'r farn y bydd hyn yn gweithredu fel sylfaen gadarn nid yn unig ar gyfer cyflwyno IPDS ond hefyd ei gymorth hirdymor. |

| Mater Allweddol | | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cam 1 | Cam 2 | |
| 2 | Mae cyflogeion a rhanddeiliaid allweddol eraill yn parhau i gael eu hysbysu'n llawn am y cynlluniau a'r prosesau dan sylw a'r rôl y mae'n rhaid iddynt ei chwarae. | Yn rhannol | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod wedi parhau i hysbysu cyflogeion a rhanddeiliaid allweddol eraill am ei gynlluniau a'i brosesau.<br>Ar 14, 15 a 16 Ionawr eleni cyfarfu timau'r IPDS yng Nghymru a chytuno ar PDR drafft yn y Coleg Gwasanaethau Tân a chytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer datblygu Cam 1, 2 a 3.<br>Cymerodd staff Rheoli'r Awdurdod ran mewn gweithdy cenedlaethol a gynhaliwyd gan Interactive Skills yng Nghanolfan IPDS yn y Coleg Gwasanaeth Tân. Yma gwnaethant gynorthwyo â'r broses o ddylunio'r Nodweddion Personol (PQA) ar gyfer staff rheoli. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar 6 a 7 Ebrill.<br>Bu staff rheoli o fewn yr Awdurdod yn gweithredu yn ôl proses map rôl IPDS am dros ddwy flynedd ac maent wedi newid ac addasu eu hymagwedd i'w system er mwyn alinio a threialu'r PDR newydd arfaethedig.<br>Yn dilyn yr adborth o archwiliad Cam 1 drafftiwyd strategaeth gyfathrebu IPDS gan y Gwasanaeth.<br>Mae aelodau COAT a BMT yn ymweld â gorsafoedd yn rheolaidd ac mae'n rhan o'u proses gyfathrebu i gwmpasu'r newyddion diweddaraf ar IPDS.<br>Mae'r Gwasanaeth wedi anfon y llyfryn arweiniad canolog 'Mae'n ymwneud â chi' at bob cyflogai.<br>Caiff cylchlythyr IPDS ei ddosbarthu ym mis Mehefin 2004.<br>Cyn hyn, defnyddiwyd archebion rheolaidd y Gwasanaeth fel proses o gyfathrebu. Yn ddiweddar, defnyddiwyd hyn i hysbysu'r staff nad oeddent mewn lifrai am y datblygiadau arfaethedig wrth gynllunio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y rolau a gyflawnir ganddynt o fewn y Gwasanaeth Tân.<br>Mewn cyfarfod IPDS Cymru gyfan a gynhaliwyd yn y Drenewydd ar 3 Mawrth 2004 mynychodd tri aelod amser cyflawn ac wrth gefn o'r Gwasanaeth er mwyn iddynt gael y newyddion diweddaraf ar y system IPD ac i dreialu'r PDRs.<br>Cynhaliwyd cyfarfod gydag Ysgrifennydd FBU Gogledd Cymru ar 14 Ebrill a daethpwyd i gytundeb ar dreialu'r PDRs mewn tair gorsaf yn unol â chytundeb CFOA Cymru y daethpwyd iddo ar 25 Mawrth 2004.<br>Y gorsafoedd a ddewiswyd ar gyfer y treial hwn yw Rhyl, Bae Colwyn a Threffynnon, ac felly mae'n cynnwys gorsaf sifftiau amser cyflawn, gorsaf sydd â gweithwyr ynddi yn ystod y dydd a gorsaf wrth gefn. |

| Mater Allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| | | | Roedd diffoddwyr tân yn y gorsafoedd yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr archwiliad yn ymwybodol o oblygiadau'r IPDS.<br>Bu'r adborth cynnar o safleoedd treialu yn gadarnhaol. |

| Mater Allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| 3 Mae'r Awdurdod Tân wedi cydymffurfio ag arweiniad ac amserlenni rhagnodedig. | Yn rhannol | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r arweiniad rhagnodedig drwy gydol y broses o gyflwyno'r IPDS.<br>Mae cynllun y PDR, dyfarnu statws Canolfan Achrededig gan Edexcel fel sail i'r broses o asesu'r gweithle a chyfranogiad a chymorth staff mewn llawer o ddatblygiadau a materion cenedlaethol yn enghreifftiau o hyn.<br>Gwerthuswyd a chymeradwywyd y PDR gan aelodau o Ganolfan yr IPDS ac mae'n cael ei dreialu gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru.<br>Mae pob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu proses y Ganolfan Asesu a Datblygu a gynhelir ar sail Cymru gyfan yn Ne Cymru. Mae hyn yn unigryw ar gyfer ymagwedd ranbarthol ac mae'n dangos cynllunio a meddwl ymlaen llaw gan bob un o'r tri Gwasanaeth.<br>Mae'r Awdurdod wedi ceisio sicrhau partneriaethau gyda darparwyr Addysg Bellach fel y cynigiwyd yn Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru.<br>Mae Cydlynydd Rhanbarthol IPDS Cymru yn cwrdd â chydlynwyr rhanbarthol o'r wlad gyfan a chaiff arferion gorau eu rhannu a'u lledaenu.<br>Mae'r Rheolwr Prosiect Cenedlaethol ar gyfer IPDS yn darparu'r newyddion diweddaraf ar gynnydd y prosiect, gan sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn sefyllfa dda i osgoi llithrant o ran cyflawni o fewn amserlenni. |
| 4 Mae'r Awdurdod Tân yn parhau i roi'r Cynllun Gweithredu a luniwyd ar sail y dadansoddiad bwlch IPDS a gynhaliwyd ar waith. | Yn gyfan gwbl | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod yn parhau i roi'r cyflwyniad i IPDS ar waith yn unol â'n cynllun gweithredu.<br>Gweithir yn ôl dadansoddiad bwlch rhanbarthol Cymru a chyflawnir targedau.<br>Yn ogystal â'r uchod, mae'r Awdurdod eisoes wedi dechrau nodi partneriaid Addysg Bellach er mwyn cynnig datblygu rheolwyr amgen drwy Rhaglenni'r Sefydliad Arwain a Rheoli a gynigir gan Goleg Llandrillo sydd wedi'u halinio â Phrifysgol Morgannwg. Yn ogystal mae'r Coleg hwn yn datblygu rhaglenni HNC ar gyfer staff Diogelwch Tân.<br>Mae'r Awdurdod yn archwilio'r posibilrwydd o ymuno â Menter Reoli'r Sector Cyhoeddus a ddatblygir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. |

| Mater Allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| (Parhad) | | | Cafwyd oedi wrth ailstrwythuro’r SLDC. Ar ôl cyflawni’r ailstrwythuro hwn bydd gan y Gwasanaeth ddulliau cymorth cryf ar waith i gyflawni materion sy’n ymwneud â datblygu yn y gweithle a materion sy’n ymwneud ag IPDS.<br>Mae’r Awdurdod wedi cwblhau cyflwyniad i’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn i’r SLDC ddod yn ganolfan hyfforddi cymorth cyntaf. Byddai hyn yn galluogi’r Gwasanaeth i gyflawni ei anghenion IPDS mewn cymorth cyntaf a diogelwch cymunedol.<br>Yn ogystal, mae’r Gwasanaeth wedi gwerthuso tri thendr Adnoddau Dynol/Hyfforddiant a fyddai’n galluogi’r Gwasanaeth i ehangu ei alluoedd swyddogaethol yn y ddau faes pwysig iawn hwn. Dewiswyd system a bydd hon yn gallu recordio a monitro map rolau a galluoedd pob unigolyn.<br>Mae’r rhain i gyd yn ychwanegol at raglen weithredu’r IPDS sydd wedi’i chynllunio eisoes ond cânt eu hystyried fel llwybrau hanfodol i’w cymryd er mwyn cyflawni a chyflwyno anghenion datblygu amgen o fewn y sefydliad ac mae ganddynt ddyfeisiau rheoli i wella’r broses o gofnodi a rhannu data. |
| 5 Mae’r Awdurdod Tân wedi paratoi’n llawn ar gyfer asesiadau yn y gweithlu ac mae’n eu cyflwyno ar sail wedi’i rhaglennu. | Ddim o gwbl | Yn rhannol | Mae’r Awdurdod wedi paratoi’n llawn ar gyfer cyflwyno asesiadau yn y gweithle.<br>Mae’r Awdurdod wedi cyflawni statws Canolfan Achrededig gydag Edexcel. Bydd ganddo reolwr penodedig mewn lle maes o law a fydd yn gyfrifol am NVQs. Bydd gan y rheolwr hwn wyth person llawn amser a phedwar person rhan amser ar gael ‘yn y maes’, wedi’u halinio i orsafoedd ac adrannau tân, a fydd yn gyfrifol am gynorthwyo’r holl reolwyr ar lefel gwylio rheolwyr i gyflawni dyfarniadau asesu galwedigaethol A1 ac A2.<br>Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod dros 30 o aseswyr yn y gweithle, tri gwiriwr mewnol a dau berson sy’n gweithio tuag at ddyfarniad V1.<br>Bydd strwythur cryf ar waith i gynorthwyo’r broses gyfan hon ac mae’r Awdurdod yn dilyn y rhestr wirio arweiniol yn 14/2003.<br>Mae’r Awdurdod yn gweithio’n agos â’r SWFA er mwyn efelychu eu hymagwedd arfer gorau tuag at NVQs, A1, A2 a phrosesau V1 er mwyn sicrhau bod sail dda iawn i’w rhaglenni Cam 2 NVQ ac asesu yn y gweithle arfaethedig. |

| Mater Allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| (Parhad) | | | Mae'r Awdurdod wedi hyfforddi a datblygu 10 o gyfarwyddwyr ac aseswyr cymorth cyntaf newydd drwy Wasanaeth Ambiwlans Rhanbarthol Glannau Merswy. Bydd y bobl hyn, gyda'u cymwysterau, yn cael ei halinio i'r system hon o asesu. Er mwyn i'r Gwasanaeth allu cynnig ei hyfforddiant cymorth cyntaf mewnol ei hun, caiff ei archwilio'n fanwl gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Yn ogystal, bydd y broses hon yn sicrhau bod gan yr Awdurdod system gadarn o gyfarwyddyd ac asesiad o gymwysterau ar waith o fewn cymorth cyntaf a bydd yn ychwanegu gwerth at y broses o asesu IPDS. |
| 6 Mae'r Awdurdod Tân wedi asesu a darparu'n llawn ar gyfer goblygiadau adnoddau IPDS yn 2004/2005. | Ddim o gwbl | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod wedi sicrhau arian digonol ar gyfer cyflwyno IPDS o fewn y flwyddyn ariannol hon.<br>Gall y Gwasanaeth ddangos ei ymagwedd ddeinamig tuag at chwilio'n barhaus am drefniadau amgen a mwy cost effeithiol ym maes datblygu staff. Gwireddwyd hyn drwy ymagwedd o weithio mewn partneriaeth gyda Cholegau Addysg Bellach.<br>Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau bod rhaglenni datblygu ar gael i'r holl staff drwy'r sefydliad gyda llai o amhariad ar barhad busnes. |

| **Asesiad cyffredinol o'r cynnydd yn y maes pwnc hwn** |
|---|
| **Cynnydd Da** |

# Atodiad 4 – Canfyddiadau'r Diagnostig Goramser

| Mater Allweddol | | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cam 1 | Cam 2 | |
| 1 | Mae'r Awdurdod Tân wedi adolygu a diwygio ei bolisïau ar y defnydd o oramser. | Yn rhannol | Yn rhannol | Mae'r Awdurdod wedi ailymweld â'i ddefnydd o oramser. Oherwydd y budd cyfyngedig a geir o ddefnyddio goramser nid yw wedi cynnal adolygiad sylfaenol. Ar hyn o bryd prin iawn yw'r goramser a gaiff ei weithio.<br>Gyda'r arweiniad presennol na ellir defnyddio goramser i gymryd lle diffyg mewn swyddi gweithredol, dim ond creu cost i'r Awdurdod y gall y defnydd o oramser ei wneud.<br>Lle defnyddir goramser i liniaru problemau byrdymor megis anawsterau staff oherwydd salwch neu ymrwymiadau hyfforddi, mae'r Awdurdod wedi elwa ar hyblygrwydd cynyddol yn y defnydd o oramser ac mae wedi rhoi arweiniad i uwch reolwyr ar ei ddefnydd.<br>Yn seiliedig ar ei berthnasedd cyfyngedig nid yw'r newidiadau wedi'u hadlewyrchu yn yr IRMP. |
| 2 | Mae'r Awdurdod Tân wedi cyfathrebu ei bolisïau diwygiedig ar y defnydd o oramser ac mae cynlluniau gweithredu ar waith i roi unrhyw newidiadau ar waith yn unol â blaenoriaethau allweddol. | Ddim o gwbl | Yn rhannol | Mae'r Awdurdod wedi addasu ei ddefnydd o oramser yn unol â pharodrwydd y corff cynrychioliadol i ganiatáu defnydd mwy hyblyg o oramser i gynnal lefelau staff a chynnal staff tân wrth gefn ar gyfer cymunedau lleol. Defnyddir goramser dim ond pan fydd opsiynau staffio eraill nad ydynt yn cynnwys costau ychwanegol wedi'u harchwilio.<br>Mae'r staff yn ymwybodol o'r paramedrau y mae goramser yn gweithio o'u mewn ac mae'r cyrff cynrychioliadol yn gwbl ymwybodol o farn yr Awdurdod.<br>Cyhyd â bod y cafeat o beidio â chaniatáu goramser i gwmpasu gostyngiad mewn lefelau staffio ar waith, cred yr Awdurdod mai dim ond dangos bod goramser yn draul ychwanegol i'r Awdurdod a wna ymarfer pennu costau. |

**Asesiad cyffredinol o'r cynnydd yn y maes pwnc hwn**

**Rhywfaint o Gynnydd**

# Atodiad 5 – Canfyddiadau'r Diagnostig Systemau Dyletswydd

| Mater Allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| 1 Mae'r Awdurdod Tân wedi adolygu ei systemau dyletswydd yn gynhwysfawr ac wedi ystyried ymagweddau amgen. | Yn rhannol | Yn rhannol | Adolygodd yr Awdurdod ei systemau dyletswydd fel rhan o'r broses IRMP a nododd newidiadau posibl mewn gorsafoedd sydd â gweithwyr ynddynt yn ystod y dydd.<br>Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar gynigion i newid y system sifftiau bresennol mewn gorsafoedd sydd â gweithwyr ynddynt yn ystod y dydd.<br>Heriwyd y cynigion hyn gan gyrff cynrychioliadol ac maent wedi'u cyfeirio at y Panel Cynghori Technegol.<br>Yn amodol ar ymateb gan y Panel Technegol a Chynghorol bwriedir cyflwyno'r newidiadau o fis Medi 2004. |
| 2 Mae'r Awdurdod Tân wedi gwneud/cynllunio newidiadau sy'n unol â chanlyniad yr IRMP a/neu amcanion y sefydliad. | Yn rhannol | Yn rhannol | Cafwyd oedi yn yr amserlen ar gyfer cyflwyno newidiadau i'r trefniadau staffio yn ystod y dydd oherwydd cyfeiriad o'r corff cynrychioliadol i Banel Cynghori Technegol NJC fel anghydfod.<br>Mae'r broses bresennol o fonitro gweithgarwch a chanlyniadau sy'n ymwneud ag ymyrraeth ac atal yn gallu mesur effeithiolrwydd y newidiadau a gynlluniwyd.<br>Rhagwelir mai effaith y newidiadau arfaethedig fydd effeithlonrwydd uwch o ran presenoldeb mewn digwyddiadau gyda gostyngiad mewn costau o ran taliadau staff. Costiwyd hyn fel rhan o'r broses IRMP.<br>Mae'r Awdurdod o'r farn y bydd y systemau gweithio newydd arfaethedig yn gwella polisïau gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd drwy gyfyngu'r tarfu a brofir ar hyn o bryd gan bersonél gweithredol y system staffio yn ystod y dydd. |

| **Asesiad cyffredinol o'r cynnydd yn y maes pwnc hwn** |
|---|
| **Rhywfaint o Gynnydd** |

# Atodiad 6 – Canfyddiadau'r Diagnostig Gweithio Rhan Amser

| Mater Allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| 1 Mae'r Awdurdod Tân wedi adolygu ei weithio rhan amser ac amodau gwasanaeth eraill yn gynhwysfawr ac wedi ystyried ymagweddau eraill. | Ddim o gwbl | Yn rhannol | Yn ddiweddar rhoddodd yr Awdurdod bolisïau newydd a diwygiedig ar waith ar rannu swydd, seibiant gyrfa, gweithio rhan amser, tadolaeth a chymorth i rieni.<br>Mae'r Awdurdod yn adolygu ceisiadau ar gyfer gweithio rhan amser fesul achos. Mae gweithio rhan amser yn agored i bersonél cymorth gweithredol ac anweithredol fel ei gilydd.<br>O ran amodau gwasanaeth, bu'r Awdurdod yn aros am ganlyniad trafodaethau cenedlaethol ar amodau gwasanaeth y Llyfr Llwyd ac ar ôl terfynu'r paramedrau cyffredinol hyn bydd yn cynnal adolygiad o arferion lleol er mwyn gwneud unrhyw newidiadau gofynnol.<br>Mae'r rheolwyr yn adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol yn rheolaidd.<br>Ar hyn o bryd cynhelir gweithio rhan amser gan bersonél cynorthwyol. Hyd yma, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan bersonél gweithredol.<br>Pan dderbynnir cais, bydd yr Awdurdod, fel rhan o'i ystyriaethau, yn adolygu amgylchiadau'r unigolyn gan ganolbwyntio ar bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd yn ogystal â sicrhau y bydd amrywio patrymau gweithio yn parhau i gyflawni nodau ac amcanion strategol yr Awdurdod. Mae'r broses hon wedi caniatáu rhannu swyddi o fewn rheolaeth dân yr Awdurdod.<br>Mae'r Awdurdod yn edrych ar arfer gorau mewn awdurdodau eraill ac yn monitro'r hyn sy'n digwydd yn y DU ac yn genedlaethol yng Nghymru yn barhaus er mwyn datblygu polisïau a gweithdrefnau drwy gyrff proffesiynol megis CFOA. Mae mynychu seminarau a chynadleddau yn rhoi cyfle i swyddogion gymharu a gwrthgyferbynnu arferion a mabwysiadu syniadau arloesol. |

| Mater Allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| 2 Mae'r Awdurdod Tân wedi gwneud/cynllunio newidiadau sy'n unol â chanlyniad yr IRMP a/neu amcanion y sefydliad. | Ddim o gwbl | Ddim o gwbl | Ni chaiff yr amserlen ar gyfer adolygu amodau'r gwasanaeth ei rhoi ar waith hyd nes bod Llyfr Llwyd terfynol.<br>Mae'r Awdurdod o'r farn y dylai unrhyw bolisi a gweithdrefn newydd sy'n ymwneud ag adnoddau dynol wella polisïau gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd. Mae gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd yn brif ystyriaeth yn nyheadau'r Awdurdod ar gyfer ei adnoddau dynol.<br>Nododd y broses IRMP rai cyfleoedd yn ymwneud â gweithio rhan amser.<br>Mae'r cyfle i wneud cais am weithio rhan amser yn agored i staff gweithredol ac anweithredol. Ystyrir pob cais fesul achos gan roi ystyriaeth i bolisïau Adnoddau Dynol perthnasol. |

| |
|---|
| **Asesiad cyffredinol o'r cynnydd yn y maes pwnc hwn** |
| **Rhywfaint o Gynnydd** |

# Atodiad 7 – Canfyddiadau ar y Diagnostig Ariannol

| Mater Allweddol | | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cam 1 | Cam 2 | |
| 1 | Mae'r Awdurdod Tân wedi costio'r holl brif gynlluniau gweithredu yn gywir. | Ddim yn gymwys | Yn rhannol | Mae'r Awdurdod wedi costio elfennau allweddol ei IRMP. Mae rhai elfennau sy'n ymwneud â chostau yn parhau heb eu diffinio.<br>Yn yr IRMP ar gyfer 2003, costiwyd llawer o'r camau gweithredu arfaethedig a'u hymgorffori i gyllideb 2004/2005. Roedd y camau gweithredu na chostiwyd bryd hynny yn amodol ar adolygiadau pellach a datblygiad polisi. Caiff goblygiadau ariannol eu costio a'u hymgorffori yn y cylch cyllideb ar gyfer 2005/2006.<br>Pan fydd yr adolygiad o'r strwythur rheoli yn gyflawn a bydd personau wedi'u dyrannu i swyddi, caiff y costau/arbedion yn cynnwys diogelu cyflog eu cwblhau. |
| 2 | Mae gan yr Awdurdod Tân gynlluniau ar waith i ddefnyddio ac ad-dalu'r arian trosiannol sy'n gyson â'r broses o gyflawni'r agenda foderneiddio. | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | Mae'r Awdurdod wedi rhagweld derbyn, ond nid yw wedi derbyn hyd yma, £382,000 o arian trosiannol. Defnyddir yr arian hwn i wrthbwyso'r cynnydd cyllidebol ar gyfer 2004/2005 a bydd yn effeithio ar filiau Treth Gyngor yn unol â chyfarwyddyd gan ODPM.<br>Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer y maes hwn wedi'i ddirprwyo i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi y bydd yn datblygu'r seilwaith sydd ei angen i sicrhau cynnydd yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn y Fframwaith Cenedlaethol i Gymru. Bydd hyn yn ymgorffori'r broses o gymhwyso Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn lle'r CPA a ddatblygir yn Lloegr.<br>Bydd yr Awdurdod yn terfynu cynlluniau i ad-dalu'r arian trosiannol pan dderbynnir arweiniad priodol. Fodd bynnag, mae wedi nodi arbedion posibl eisoes a allai fod ar gael i ariannu'r broses o ad-dalu. |

| **Asesiad cyffredinol o'r cynnydd yn y maes pwnc hwn** |
|---|
| **Rhywfaint o Gynnydd** |

# Atodiad 8 – Canfyddiadau ar Ddiagnostig yr Agenda Foderneiddio

| Mater Allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| 1 Mae gan yr Awdurdod Tân weledigaeth glir a gyfathrebir yn dda o'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni o ran moderneiddio sydd wedi'i diweddaru ar gyfer newidiadau diweddar. | Yn gyfan gwbl | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod yn gallu dangos gweledigaeth glir a dangosadwy o'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni yn ei IRMP.<br>Mae'r pwyslais ar atal tân yn hytrach na diffodd tân yn ethos sy'n treiddio drwy'r Awdurdod. Ceir tystiolaeth o hyn gan y ffaith y caiff adnoddau eu cyfeirio i ffwrdd o ymyrraeth a hyfforddiant parhaus ar gyfer gweithrediadau, i atal a'r defnydd o amser hyfforddi i gynnal mentrau diogelwch cymunedol a diogelwch tân.<br>Mae datganiad o fwriad yr Awdurdod mewn cyhoeddiadau diweddar yn arwydd o flaenoriaethau ac amcanion yr Awdurdod.<br>Mae'r rheolwyr wedi ceisio cyflawni'r weledigaeth a'r blaenoriaethau lleol drwy ymrwymiad i gynnwys personél mewn trafodaeth a dadl ym mhob agwedd ar eu gwaith o ddydd i dydd.<br>Mae hon yn broses o ryngweithio i godi proffil yr agenda foderneiddio. |
| 2 Mae'r Awdurdod Tân wedi cymryd camau gweithredu effeithiol i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol cynnar ar yr agenda foderneiddio ehangach. | Yn rhannol | Yn gyfan gwbl | Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau gweithredu i gyflawni ar nifer o'i flaenoriaethau allweddol cynnar.<br>Ceir manylion o'r rhain yn Adran 3 isod.<br>Mae'r Awdurdod, drwy ei gynlluniau hirdymor yn yr IRMP wedi dangos ei fwriad i ddatblygu ochr ataliol y Gwasanaeth yn llawnach. Mae ei gynlluniau yn dangos ymagwedd feddylgar tuag at ryddhau adnoddau ar ochr diogelwch y Gwasanaeth tra'n peidio â lleihau'r diogelwch i'r cymunedau lleol. Mae cynlluniau megis IRMP ac IPDS wedi amlygu ers amser, mai prif ffactor dros eu cyflwyno oedd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng atal/ymyrraeth.<br>Mae'r Awdurdod wedi achub ar y cyfle i ymateb i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddogfen Fframwaith Cenedlaethol Cymru. Bu'r ymateb yn adeiladol ac yn edrych i'r dyfodol.<br>Mae'r Awdurdod yn credu bod ei allu i fod yn rhagweithiol mewn llawer o'r meysydd yn dangos yr ymrwymiad parhaus i gyflawni'r agenda foderneiddio yng Nghymru.<br>Bu gan yr Awdurdod gydberthynas gydweithrediadol hirsefydlog gyda'r ddau awdurdod tân arall yng Nghymru ac mae'n edrych ymlaen at barhau i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth. |

| Mater Allweddol | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cam 1 | Cam 2 | |
| (Parhaus) | | | Mae'r Awdurdod yn cyfrannu'n eang at agendâu cyffredinol cynhwysiant cymdeithasol, adnewyddu cymdogaethau a lleihau troseddau. Mae'n aelod gweithgar o Grŵp Prif Swyddogion Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru, ei is-fforwm ymarferwyr a gweithgorau cysylltiedig a'r grwpiau cymunedol lleol o fewn pob ardal awdurdod unedol sy'n ymdrin â throseddau, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, Cymunedau yn Gyntaf a chynhwysiant cymdeithasol. Ceir enghraifft o hyn ar y lefel leol mewn unrhyw un o'r is-adrannau presennol o fewn yr Awdurdod.<br>Mae'r ymagwedd strategol tuag at weithio mewn partneriaeth yn seiliedig ar yr egwyddor bwysicaf sef bod darparu amcanion y bartneriaeth yn gyson â nodau ac amcanion yr Awdurdod Tân a bydd yn cynorthwyo wrth fodloni anghenion y gellir eu nodi'n lleol, yna caniateir i reolwyr lleol gynorthwyo ac ymrwymo i'r bartneriaeth ar ran yr Awdurdod.<br>Mae cyfraniad y rheolwyr i'r agenda amrywiaeth ethnig wedi'i gyfyngu i wneuthuriad y boblogaeth leol a'r niferoedd bach iawn o fewn y gymuned ethnig leiafrifol. Fodd bynnag, craffir ar yr holl bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn ategu Cynllun Cydraddoldebau Hiliol yr Awdurdod ac yn hyrwyddo'r agenda amrywiaeth. |
| 3 Mae'r Awdurdod Tân wedi gwneud cynnydd da hyd yma wrth gylfawni ar rai agweddau ar foderneiddio. | Yn gyfan gwbl | Yn rhannol | Ers Cam 1 prif elfen cynigion moderneiddio'r Awdurdod fu'r canolbwynt ar atal a datblygiad parhaus diogelwch cymunedol gyda mentrau lleol. Gwnaed cynnydd tuag at roi'r broses o ailstrwythuro rheolwyr newydd ar waith ac mae'r broses o gynhyrchu swydd-ddisgrifiadau, manylebau person a hysbysebu swyddi uwch reolwyr wedi datblygu. Disgwylir i'r Awdurdod gwblhau'r newid erbyn diwedd 2004.<br>Mae'r strwythur is-adrannol presennol yn newid i ffiniau'r awdurdodau unedol yn raddol drwy gyflwyno timau sy'n cyflawni gwasanaethau ar gyfer y meysydd penodol hynny.<br>Mae'r ddarpariaeth ddiwygiedig ar gyfer lleoli adnoddau yn cael effaith ar y broses o gyflawni gwasanaethau yn barod. Mae'r mentrau hyn yn gyson â gweledigaeth yr Awdurdod ac maent yn amcanion a ddatgenir yn yr IRMP.<br>Mae'r meysydd nad ydynt wedi'u rhoi ar waith hyd yma yn cynnwys y newidiadau i'r system staffio yn ystod y dydd a'r newid strwythur i'r SLDC. Bu'r ddau'n destun anghydfodau lleol a gychwynnwyd gan y corff cynrychioliadol. |

| Mater Allweddol | | Asesiad | | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cam 1 | Cam 2 | |
| 4 | Mae'r Awdurdod Tân wedi rhoi cynlluniau effeithiol ar waith i gyflawni ei flaenoriaehau, nodau ac amcanion diwygiedig ymhellach. | Yn rhannol | Yn gyfan gwbl | Mae gan yr Awdurdod gynlluniau gweithredu ar waith i gyflawni ei IRMP. Cyflwynir adroddiadau ar gynnydd yr holl faterion i bob BMT a chaiff ei gyfathrebu i'r Gwasanaeth drwy'r cofnodion a'r papurau y mae modd cael mynediad iddynt ar y fewnrwyd.<br>Cyflwynir adroddiadau ar faterion sy'n codi o gynnydd i Weithgor y Panel Gweithredol. Yn ogystal, darperir yr adroddiadau hyn i'r Gweithgor Gwerth Gorau er mwyn sicrhau cysondeb ymateb. Mae'r Awdurdod Tân llawn yn derbyn adroddiadau bob chwarter ar y cynnydd o ran rhoi'r IRMP ar waith. |

| **Asesiad cyffredinol o'r cynnydd yn y maes pwnc hwn** |
|---|
| **Cynnydd Da** |

# Cytundeb Cyflog ac Amodau'r Gwasanaeth Tân: Adroddiad Dilysu Lleol Cam 2

## Awdurdod Tân Gogledd Cymru

## Cynllun Gweithredu

**Gorffennaf 2004**

Fersiwn: 1.0

646A2004

| Tudalen | Mater i fynd i'r afael ag ef/ Argymhelliad | Blaenoriaeth 1 = Isel 2 = Canolig 3 = Uchel | Cyfrifoldeb | Cytunwyd | Sylwadau | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *IRMP* | | | | | | |
| 9 | Penderfynu ar yr adnoddau sydd eu hangen i gwblhau'r ymarfer FSEC. | 3 | | | | |
| 9 | Cwblhau'r broses o ddilysu data FSEC ar gyfer 1999-2002 a sefydlu amserlen ar gyfer mewnbynnu data FSEC ar gyfer 2003/2004. | 3 | | | | |
| 11 | Mabwysiadu safonau a thargedau lleol. | | | | | |
| *Rheng i rôl* | | | | | | |
| 15 | Cwblhau ffurflen drosglwyddo Rheng i Rôl weithredol pan fydd arweiniad cenedlaethol ar gael. | 3 | | | | |
| *Goramser* | | | | | | |
| 23 | Parhau i archwilio'r potensial ar gyfer defnydd pellach o oramser. | 1 | | | | |

| Tudalen | Mater i fynd i'r afael ag ef/ Argymhelliad | Blaenoriaeth 1 = Isel 2 = Canolig 3 = Uchel | Cyfrifoldeb | Cytunwyd | Sylwadau | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | Parhau i adolygu costau a buddiannau'r defnydd o oramser. | 1 | | | | |
| *Systemau Dyletswydd* | | | | | | |
| 24 | Rhoi newidiadau arfaethedig ar waith i systemau dyletswydd a monitro effeithiolrwydd newidiadau o ran y broses o gyflawni gwasanaethau. | 3 | | | | |
| 24 | Parhau i fonitro goblygiadau newidiadau i systemau dyletswydd o fewn yr agenda ehangach er mwyn bod yn 'ystyriol i deuluoedd'. | 3 | | | | |
| *Gweithio rhan amser* | | | | | | |
| 25 | Rhoi adolygiad o amodau gwasanaeth ar waith pan ddeuir i gytundeb terfynol ar y Llyfr Llwyd. | 2 | | | | |
| *Diagnostig Ariannol* | | | | | | |
| 27 | Cwblhau'r gwerthusiad ariannol o'r holl gynlluniau gweithredu. | | | | | |

| Tudalen | Mater i fynd i'r afael ag ef/ Argymhelliad | Blaenoriaeth 1 = Isel 2 = Canolig 3 = Uchel | Cyfrifoldeb | Cytunwyd | Sylwadau | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | Datblygu cynlluniau manwl ar gyfer ad-dalu arian trosiannol yn unol â gofynion pan gaiff arweiniad ei gyhoeddi. | 2 | | | | |